Hysbysiad o ddyddiad penodiEd ar gyfer arfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

CYNGOR TREF CASTELLNEWYDD EMLYN

Diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2020

1. Dyddiad cyhoeddi 23/08/2020
2. Bob blwyddyn, caiff y cyfrifon blynyddol eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson â diddordeb y cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl rhoi rhybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, bydd y dogfennau hyn ar gael ar hysbysiad rhesymol wrth wneud cais i:
   Clerc, Awelon,Velindre, Llandysul SA44 5JF
   rhwng yr oriau o 10.30yb-12-30yp
   o ddydd Llun i ddydd Gwener
   yn dechrau ar 7fed o Fedi 2020
   ac yn diweddu ar yr 2il o Hydref 2020

1. O 3 Hydref 2020 hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan etholwyr llywodraeth leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon. Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy [Grant Thornton]; a chael
   - yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Yn gyntaf, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol drwy [Grant Thornton]. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

- [Gellir cysylltu â Grant Thornton yn: Grant Thornton, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT]

2. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 a chod ymarfer archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.